PROSIECT WICKED

Adroddiad Chwarter Blwyddyn, Ionawr – Mawrth. '08

TIR COED

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

COMIC RELIEF

The Princess Royal Trust for Carers

Hilton Foundation

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

1. Trosolwg o weithgareddau Tir Coed:

1. O dan arweinyddiaeth Ysgrifennydd y Cwmni, John Wildig, y mae tîm Tir Coed wedi bod yn cyfarfod yn fisol i drafod datblygiadau a materion diweddar.

2. Mae Chris, Swyddog Gweinyddol Tir Coed, wedi dechrau ceisio am gyllid craidd gan Ymddiriedolaethau Elusennol bychain. Derbyniwyd 7 cadarnhad o dderbyniad.

3. Ar ddiwedd blwyddyn gyntaf Prosiect WICKED, rydym wedi tan wario £2,352 o gyllid y BLF, ond rydym wedi cael caniatâd i drosglwyddo'r tan wariant yma i flwyddyn 2. Roedd cyllid Comic Relief yn gytbwys ym mlwyddyn 1, hyn yn bennaf o ganlyniad gwariant ar drefnu dau Ddathliad Mês Diwedd Blwyddyn ar gyfer Gofalwyr Ifanc.

4. Mae Adroddiad Blynyddol wedi ei gyflwyno i Comic Relief. Yn yr adroddiad, cynhwyswyd 4 astudiaeth o ofalwyr ifanc unigol sydd wedi elwa o'r Cynllun Mês.

5. Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol i'r Hilton Foundation. Fe anfonodd y Gweinyddwr e-bost i'r Swyddogion Prosiect â'r ymateb: *"cafodd eich Adroddiad Grant...ei adolygu gan y Pwyllgor Grantiau ddoe yn eu cyfarfod chwarter. Roedd pawb yn falch o weld adroddiad mor gynhwysfawr a oedd yn cynnwys manylion gwariant, astudiaethau ayyb., a chlywed am y datblygiadau yr ydych wedi eu gwneud yn barod efo prosiect Coed Call."* Mae Sefydliad Hilton wedi cytuno i drosglwyddo'r tanwariant o £3,090 i ail flwyddyn y prosiect, ac mae dau o'r Ymddiriedolwyr wedi dangos diddordeb mewn ymweld â gweithgareddau WICKED yn ystod y flwyddyn.

6. Cynhaliwyd cyfarfod chwe misol Bwrdd Cyfarwyddwyr Tir Coed ar Ebrill 10fed, 2008. Croesawyd dau Gyfarwyddwr newydd i'r cyfarfod, Paul Subbachi o Gomisiwn Coedwigaeth Cymru, a Keith Blacker, perchennog coedlan sydd wedi ymwneud llawer â NCH a Mencap.
Rhoddwyd cyflwyniad ar gyraeddiadau blwyddyn gyntaf Prosiect WICKED. Cafodd y polisïau dilynol eu derbyn:
Polisi Iaith Gymraeg, Polisi recriwtio a diogelwch y Swyddfa Cofnodion Troseddu [CRB).

7. Rhoddodd Becky gyflwyniad am Tir Coed a Phrosiect WICKED yn ystod y diwrnod Rhwydweithio Coed Lleol yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen (CAT).

8. Cynrychiolwyd Tir Coed gan John Wildig yn nigwyddiad Polisi Rhanbarthol y CGGC – "diweddariad Cronfa Strwythurol Ewrop". O ganlyniad i rwydweithio John, gwahoddwyd Tir Coed i roddi cyflwyniad i Isadran Cyfleoedd Dysgu Ieuenctid ac Oedolion LCC am Brosiect WICKED. Cyfarfu Simon, John a Gwyneth efo Marcus Hill a Nikki Moulds o adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r Adran yn ymgeisio am gyllid gan Gynllun Cydgyfeiriant yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer "Reach The Heights" – rhaglen sy'n canolbwyntio ar godi lefelau cyrhaeddiad ac ysgogi lefelau gallu pobol ifanc anodd eu cyrraedd yng Nghymru. Teimlai Cadeirydd ac Ysgrifennydd Tir Coed y byddai gweithgareddau presennol prosiect WICKED yn gweithio'n dda yn y prosiect yma; felly, mynegodd Tir Coed ei diddordeb am gael dod yn bartner yn y prosiect.
Drwy ddefnyddio'r gyllideb sydd wedi ei sicrhau'n barod ar gyfer prosiect WICKED fel cyllideb cyfartal, gallai Tir Coed, trwy raglen Reach The Heights dderbyn cyllid o Ewrop. Byddai hyn yn ein galluogi i gyflogi Swyddogion prosiect ychwanegol i ehangu lles y prosiect WICKED i siroedd Gogledd Orllewin Cymru, yn benodol Gwynedd, Sir Fôn, Conwy, a Sir Ddinbych.

Mae Ffurflen Gynnig Prosiect llawn wedi cael ei chyflwyno ar gyfer “Reach The Heights” – prosiect 4 blynedd, yn gweithredu o 2008 ymlaen.

Pris llawn y prosiect 4 blynedd	£1,265,958
Cyllideb cyfartal presennol WICKED sydd wedi ei ddatgan ar gyfer Blynyddoedd 1 a 2	£222,989
Cyllideb cyfartal mewn cynnyrch addefed (gwerth Gweithwyr Ieuenctid, etc.)	£186,710
ESF y gwneud cais amdano (54.46% o’r cyfanswm)	£689,439
Diffygion yn y gyllideb cyfartal am flynyddoedd 3 a 4 (2010 a 2011)	£166,820

9. Cyfarfu Becky â Liz Griffiths, Swyddog Achredu Gwasanaeth Ieuenctid Sir Benfro i drafod achrediadau Rhwydwaith Coleg Agored (RhCA) ar gyfer criw Coed Call Sir Benfro. Roedd y cyfarfod yn un defnyddiol iawn, gan roddi dealltwriaeth bellach i Swyddogion Tir Coed ar sut y mae RhCA yn gweithio.

10. Cyfarfu Gwyneth â swyddog o Dîm Troseddwyr Ifanc Powys (TIP). Cytunwyd i drefnu diwrnod blasu ar gyfer staff a defnyddwyr. Os fydd diddordeb y staff yn ddigonol, gallai hyn arwain at hyfforddi Swyddogion TIP mewn gwaith Coed Irlas a sgiliau rheoli coedlannau, er mwyn galluogi gwaith hirdymor 1 : 1 efo pobl ifanc.

2. Gweithgareddau yn y pedwerydd chwarter wedi eu rhestru o dan pob menter prosiect WICKED:

(Gan gynnwys cyrhaeddiad yn erbyn targedau ac adborth)

a) Cynllun Mês

(Gweithgareddau groffwysol i Ofalwyr Ifanc)

Prif weithgaredd y fenter yma oedd y Dathliad Mês Cyntaf a oedd yn cynnwys 3 o'r 4 sir sydd wedi bod yn rhan o'r cynllun Mês.

Gofalwyr Ifanc Powys:

Noswaith clwb addurniadau Pasg o goed Helyg:
Yn dilyn llwyddiant creu addurniadau Nadolig allan o goed Helyg, fe wnaeth Gofalwyr Ifanc Powys gais i gael cyfres o sesiynau Helyg yn ystod nosweithiau clwb yn arwain tuag at y Pasg. Ymwelodd 2 Hyfforddwr 5 clwb gwahanol o ogledd a de Powys. Cynhaliwyd y clybiau yn y Drenewydd, Trallwng, Trefyclo, Llandrindod ac Aberhonddu. Bu 36 gofalwr ifanc yn cymryd rhan. Gwnaeth pob cyfranogwr naill ai greu basged Helyg fach neu hambwrdd i fynd adref efo nhw. Darparodd Swyddog Prosiect Tir Coed wyau Pasg siocled bach i'w rhoddi yn y basgedi.
Roedd y bobl ifanc wrth eu boddau efo'r hyn yr oeddent wedi eu creu.

Am na chynhaliwyd y weithgaredd hon yn yr awyr agored, a chan mai dim ond 2 awr oedd ei hyd, ni ofynnodd y Swyddog Prosiect i'r cyfranogwyr gwblhau ffurflenni hunan werthusiad cyn, nac ar ôl y sesiwn. Ond, casglwyd adborth "hoffi" a "ddim yn hoffi".

NÔD	**CYRHAEDDWYD Y NÔD**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un darn â llaw.	Aeth pob un o'r cyfranogwyr ag o leiaf un darn adref	
Mae'r cyfranogwyr yn medru mynegi eu barn am y goedwig, y gweithgaredd ac am eu hunain ar recordiad fideo	Prawf ffotograffig yn unig.	
70% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 70% o'r amser.	Amh. dim ond sesiwn 2 awr oedd hwn	36 cyfranogwr

Adborth:
Hoffi - *"Pa mor hawdd oedd hi, a'r wyau"*
"Fe hoffais y gwau a gwneud yr hambwrdd a ... cael wyau am ddim!"
"Fe wnes i hoffi popeth"
"Roedd yn dda i'w wneud ac yn hwyl"

"Fy masged wyau"
"Fe wnes i hoffi chwarae efo'r helygen a'i wneud i edrych yn neis iawn"
"Gwneud y fasged"
"Gwneud basged Gwellhad Buan i mam sydd yn yr ysbyty"

Ddim yn hoffi - *"Cefais gwau'r fasged yn anodd ond fe wellais wrth wneud mwy"*
"Gwneud y fasged" x 3
"Dim" x 11
"Roedd yn rhy galed i fi"

Adborth gan yr Hyfforddwr:
"Fe fwynhaom y sesiynau ond cawsom Llandrindod yn un o'r rhai mwyaf anodd (sylwch ar yr adborth mwy negyddol oddi yno!) Dwi'n credu mae'r trafferth oedd taw yn lle defnyddio'r safle blaenorol (roedd cyfarfod yn rhedeg yn hwyr yno), defnyddiom ystafell lai. Credais byddai hyn yn rhoi'r fantais i ni gan fod pawb yn dechrau efo'u gilydd ac y medrwn i egluro'r broses yn fras i bawb efo'u gilydd. Ond sylweddolais wedyn bod hyn wedi codi arswyd ac felly eu bod wedi dechrau efo diffyg hyder ynglŷn â'r peth. Y ffordd orau o weithio fel arfer ydi un wrth un, eu dechrau wrth iddyn nhw ddod mewn at y criw. – Mae gwneud yn llawer gwell na' gwylio!"

Sesiwn Blasu Ysgol Goedwig, Mawrth 27ain –
Ar ddiwrnod poeth ym mis Mawrth, ymwelodd 9 aelod o griw Trefaldwyn o Ofalwyr Ifanc Powys, â Choedlan Bolbro, ger Aber-miwl, am sesiwn blasu Ysgol Goedwig. Arweiniwyd y diwrnod gan 3 aelod o dîm clwstwr Menter Addysg Coedwig Trefaldwyn.
Croesawyd y bobl ifanc â thost a diodydd poeth o gwmpas y tân, a gemau. Yna fe'u rhannwyd yn ddau griw i adeiladu pontydd rhaff, fe wnaethant fwynhau hyn gymaint fel iddynt ofyn pe caent gystadleuaeth i gael gweld pwy oedd y cyflymaf i groesi'r pontydd.
Dychwelodd y rhai mwyaf cystadleuol a bywiog yn ôl at y weithgaredd hon yn ysbeidiol trwy gydol y dydd, tra'i bod yn well gan eraill eistedd o gwmpas y tân yn gwneud chwibanau a morthwylion pren.
Er bod pawb wedi dod â chinio gyda nhw, roedd yr hyfforddwyr wedi dod â chynhwysion i wneud cyri a reis dros y tân. Cynorthwyodd rhai o'r criw i baratoi'r cinio, a chafodd ei fwynhau gan bawb.
Gweithgaredd arall a brofodd i fod yn boblogaidd iawn yn ystod y diwrnod oedd adeiladu cuddfan.
Mae'r bobl ifanc yn edrych ymlaen yn awr at eu hymweliad nesaf a Choedlan Bolbro, sef sesiwn dilynol yr Ysgol Goedwig am 2 ddiwrnod yn ystod wythnos Sulgwyn.
Cynhaliwyd asesiad bwrdd dartiau ar ddechrau'r sesiwn blasu – caiff hyn ei gwblhau ar ddiwedd y sesiynau dilynol, ynghyd â mwy o adborth am y profiad o Ysgol Goedwig.
Bydd adroddiad llawn ar y sesiynau dilynol, ynghyd ag adborth, ayyb, yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad chwarter blwyddyn nesaf.

Gofalwyr Ifanc Ceredigion:

Heblaw am y 2 Ddathliad â gofnodir isod, ni chafwyd unrhyw weithgaredd efo Gofalwyr Ifanc Ceredigion yn ystod y chwarter hwn. Cynhaliwyd gweithgareddau Pasg yn gynnar ym mis Ebrill, bydd manylion y gweithgareddau hyn yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Chwarterol nesaf.

Gofalwyr Ifanc Sir Gâr:

2 x 1-diwrnod Gweithdy Coed Gwyrdd – 2 weithdy 1-diwrnod ar 25ain a 26ain Mawrth yng ngweithdy'r Ceidwad, Brechfa. Roedd y gweithdy cyntaf ar gyfer plant 8 – 12 oed ac roedd 9 cyfranogwr; ac roedd yr ail ar gyfer criw o 8 o blant 13-18 oed. Arweiniwyd y gweithdai gan Jamie Miller a Tony Eames, a chynorthwywyd gan Dave Hoyle. Er bod y gofalwyr ifanc wedi gofyn am gael gweithdai dros 2 neu 3 diwrnod (cyfnod a fyddai wedi bod yn fwy gwerthfawr o'r ochor ymarferol a chymdeithasol), cyfyngwyd y gweithdai i ddiwrnod yr un oherwydd prinder staff cefnogol.

Yr oedd amrywiaeth o gynnyrch y gallai'r bobl ifanc ddewis eu gwneud, gan gynnwys stôl deirtroed, ysgub 'Harry Potter', caws llyfant, basgedi Collen a chlwydi bychain. Yn ystod y ddau ddiwrnod, fe wnaeth criwiau bach o bobl ifanc gymeryd amser i fynd i'r coed gerllaw i fforio ac i wneud cuddfan efo Dave Hoyle. Fe wnaeth y bobl ifanc wir ganolbwyntio yn ystod y ddau ddiwrnod, gan ganolbwyntio'n dda ar y gwaith ar y pryd, a mynd oddi yno efo llawer o bethau iddynt eu gwneud. Rydw i wedi clywed bod un hogyn ifanc yn y criw ieuengaf wedi cwympo i gysgu yn y car ar ei ffordd adref tra'n gorffwys ar y stôl un coes y gwnaeth y prynhawn hwnnw.

Adborth yr Hyfforddwr:

"'*Roedd yr holl ofalwyr ifanc wedi llwyr ymroi efo'r hyn oedd ar gynnig yn ystod y ddau ddiwrnod, gan hyd yn oed ddod a'u syniadau eu hunain ar gyfer gwneud gwahanol bethau* " – Tony Eames.

Adborth Gweithiwr Cynorthwyol:

Cyrhaeddiad dysgu: "*Defnyddio offer a allai fod yn beryglus yn y ffordd cywir, rhoi galluoedd bywyd i'r bobl ifanc ar gyfer y dyfodol*" – Grant Rees.
"Roedd y gwenu'n dweud y cyfan a bron dim achwyn, cafwyd diwrnod gwych gan bawb" Candace Reed.

Adborth Pobl Ifanc:

Hoffi – (criw ieuengaf) "*Popeth, hyd yn oed y coed yn mynd mewn i'm llygaid i ac fe wnes i ddwli ar wneud yr ysgubau*"
(criw hŷn) "*Popeth*" x 8

Ddim yn hoffi –
(criw ieuengaf) "*Yr oerfel"* x 3
(criw hŷn) "*Dim*" x 7

Cyraeddiadau: Cynhyrchodd pob cyfranogwr amryw o ddarnau wedi eu creu â llaw yn y weithgaredd hon.

Mae Becky yn arbrofi efo ffurflenni adborth gwahanol i werthuso'r canlyniadau gan ei bod hi'n dod yn anodd a llafurus i gael ymateb cywrain i gwestiynau sy'n ymwneud â iechyd a hapusrwydd ar ôl pob gweithgaredd. Felly, rydym nawr yn mynd i gasglu canlyniadau prosiect WICKED M□s Sir Gâr bob hanner blwyddyn yn ystod dyddiau gwerthuso rheolaidd Gofalwyr Ifanc Sir Gâr.

NÔD	**CYRHAEDDWYD Y NÔD**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un darn â llaw.	Do, cynhyrchodd yr holl gyfranogwyr o leiaf 1 darn ym mhob gweithgaredd M□s.	
70% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 70% o'r amser.	Do, mynychodd pawb bob dydd = 100% yn bresennol	
O leiaf 60% o bobol ifanc yn dangos mwy o ymwybyddiaeth amgylcheddol:		
Cyfranogwyr yn medru enwi o leiaf un math o goeden	Enwodd 78% o leiaf un math o goeden.	
Cyfranogwyr yn gwybod bod coedwigoedd yn cynnal bywyd gwyllt – yn medru enwi o leiaf un math o anifail	Enwodd 93% o leiaf un math o fywyd gwyllt a geir mewn coedwig.	
Mae cyfranogwyr yn ymwybodol am o leiaf un modd y mae coetiroedd o feunydd i'r amgylchfyd	Yr oedd 57% yn gwybod un ffordd y mae coetiroedd o ddeunydd i'r amgylchfyd.	
O leiaf 60% o bobol ifanc yn dangos gwelliant yn eu hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Do, o'r 14 a wnaeth ymateb: 2 = yr un peth = 14% 9 = mwy = 64% 3 = llai = 21%	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Do, yr oedd pob un o'r cyfranogwyr a wnaeth ymateb eisiau cymryd rhan mewn mwy o weithgareddau WICKED.	

Gofalwyr Ifanc Sir Benfro:

Cynhaliwyd gweithdy fel rhan o noswaith clwb sefydledig y criw, sydd yn cymryd lle bob yn ail fis. Unwaith eto, coed Helyg oedd y thema, mae Becky yn gobeithio denu y Gweithwyr Cefnogol i dderbyn hyfforddiant ar Goed Helyg.

Noswaith Clwb Gweithdy Coed Helyg – Cynhaliwyd gweithdy Coed Helyg ar thema'r Pasg ar 29ain Chwefror. Cafodd y gweithdy ei gynnal yn Neuadd Albany, Hwlffordd, ac fe'i harweiniwyd gan Jo Steadman a Helen Campbell. Cymerodd 20 o Ofalwyr Ifanc rhwng 9 ac 16 mlwydd oed ran yn y gweithdy. Fel dilyniant i'r gweithdy a gynhaliwyd ym mis Tachwedd, adeiladodd y gofalwyr ifanc ar eu profiad o waith â choed Helyg a brwyn i greu basged Pasg. Daeth Staff Cynorthwyol y Gofalwyr Ifanc ag wyau Pasg gyda nhw, rhoddodd hyn gyffyrddiad gorffenedig hyfryd i'r basgedi. Anogwyd y bobl ifanc i arbrofi â'r deunyddiau, gan wneud ffurfiau syml, cyn derbyn cymorth i wneud ffurfiau mwy cymhleth. Fe wnaeth y gweithgaredd gynnal diddordeb y bobl ifanc drwy gydol y sesiwn 2 awr a hanner, a oedd, gan ystyried pa mor hwyr oedd hi a pha mor ifanc oedd rhai o'r plant, yn dipyn o gyrhaeddiad.

Adborth yr Hyfforddwr:

"Roedd adborth llafar y cyfranogwyr a'r staff yn gadarnhaol iawn ac roeddent yn frwdfrydig i gael gwneud rhywbeth tebyg yn y dyfodol." – Jo Steadman

NÔD	**CYRHAEDDWYD Y NÔD**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem â llaw.	Creodd pob un o'r cyfranogwyr o leiaf un peth	
70% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 70% o'r amser.	Amh. dim ond sesiwn 2.5 awr oedd hi	
O leiaf 60% o bobol ifanc yn dangos gwelliant yn eu hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Do, O'r 5 wnaeth ymateb: 1 = yr un peth = 20% 4 = mwy = 80%	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Do, yr oedd pob un a ymatebodd eisiau cymryd rhan mewn mwy o weithgareddau WICKED.	

Adborth:

Hoffi – *"Popeth am y gwau coed Helyg, 'roedd yn llawer o hwyl. Dewch eto os gwelwch yn dda. Diolch x"*

Ddim yn hoffi - Dim wedi nodi

Dathliad Mes 2008:

Roedd y digwyddiad hwn yn dathlu blwyddyn o brosiect WICKED, a daeth 3 o'r 4 criw Gofalwyr Ifanc y mae Tir Coed wedi bod yn gweithio â hwy ynghyd ar 2 x 2-ddiwrnod preswyl yn ystod mis Chwefror – un ar gyfer plant 8 – 12 mlwydd oed, a'r llall ar gyfer 13 -18 mlwydd oed. Fe wnaeth 41 Gofalwr Ifanc gymeryd rhan. Cynhaliwyd y dathliadau yn ardal Coedwig Brechfa, a oedd yn cynnwys gweithdai yng Ngweithdy'r Ceidwad, a noswaith o adloniant yn neuadd bentref Llansawel. Gweithiodd Tir Coed efo llawer o unigolion lleol a chriwiau i wneud y 2 ddigwyddiad yma yn lwyddiannau ysgubol.

Dilynodd y ddau breswylfa strwythur tebyg i'w gilydd. Dechreuodd y diwrnod cyntaf efo storïau yn cael eu hadrodd yn huawdl gan Melissa Holloway. Chwedl draddodiadol o Ddwyrain Ewrop oedd hi, am y trawsnewidiad o blentyndod i fod yn oedolyn, ac fe gyfareddwyd y ddau griw. Yna darparwyd 2 weithdy, gweithdy adeiladu a gweithdy celf. Cafodd y gweithdy gwaith coed irlas ac adeiladu eu harwain gan Tony Eames a Jamie Miller. Gwnaeth y bobl ifanc amrywiaeth o gynhyrchion gwahanol, gan gynnwys caws llyffant, batiau pel-fâs ac hyd yn oed certi gyrru, ond roedd y prif weithgaredd yn ymwneud ag adeiladu a cherfio porth bwaog, a oedd yn cynrychioli y trawsnewid o blentyndod i fod yn oedolyn. Melissa Holloway a Maggie Fearn wnaeth arwain y gweithdy celf, gwnaeth y bobl ifanc ddoliau talismon, gorchuddion clustog, modelau clai a modelau coed Helyg. Treuliodd rhai o'r gofalwyr ifanc tipyn o amser yn fforio'r goedlan, ac eistedd a siarad o amgylch y tân a gwneud cuddfan. Roedd yr holl hyfforddwyr yn hyblyg iawn, yr oedd llawer o'r gweithgareddau ar gais y gofalwyr ifanc eu hunain. Ar ddiwedd y 2 ddiwrnod, cafwyd 'dathliad', ysgrifennwyd dymuniadau y bobl ifanc ar gyfer eu hunain ac i'r dyfodol ar ddarnau papur siâp hadau, a gosodwyd rhain mewn cawell wedi ei wneud o

Helyg gan un o'r cyfranogwyr yn gynharach yn y diwrnod. Yna, cafodd y cawell ei losgi mewn seremoni tra bod y gofalwyr ifanc yn gwylio, efo rhai yn ymuno drwy guro drymiau.

Darparodd Gillie Gardner y llety yn Hundy Gilfach Wen, Brechfa. Roedd yr hundy newydd gael ei adnewyddu, gan ddarparu llety o safon uchel. Darparodd Marie Simpson y bwyd yn y llety ac yn y gweithdy, a gwerthfawrogwyd hyn gan y gofalwyr ifanc a'r Gweithwyr Cynorthwyol. Darparwyd yr adloniant nos gan y Band Celtaidd Mordekkers, gyda Cath Oakwood yn galw. Er bod y criw ieuengaf wedi mwynhau adloniant y noswaith ar y cyfan â llawer ohonynt yn cymeryd rhan yn y dawnsio, mi fuasai wedi bod yn well gan y criw hŷn gael disgo neu garioci – caiff hyn ei gymeryd i ystyriaeth ar gyfer preswylfeydd y dyfodol.

Yn ei grynswth, roedd y Dathliad Mês yn llwyddiant ysgubol. Un prif gyrhaeddiad cadarnhaol oedd dod â gofalwyr ifanc o bob cwr o ganolbarth a gorllewin Cymru at eu gilydd i rannu eu profiadau. Mae llawer o'r gofalwyr ifanc wedi gofyn am ragor o ddigwyddiadau sir cyfunol.

<u>Y criw ieuengaf</u>
Mynychodd 22 gofalwr ifanc y dathliad yma

NÔD	**CYRHAEDDWYD Y NÔD**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem â llaw.	Do, creodd pob un o'r cyfranogwyr o leiaf un peth	
70% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 70% o'r amser.	Yr oedd 95% yn bresennol am 100% o'r amser	Fe aeth un o'r 22 cyfranogwr adref ar ôl y diwrnod cyntaf, gan ei fod yn poeni am y sefyllfa gartref.
O leiaf 60% o bobol ifanc yn dangos gwelliant yn eu hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Do, 3 = yr un peth = 14% 2 = llai = 9% 17 = mwy = 77%	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Do, yr oedd pawb a wnaeth ymateb eisiau cymryd rhan mewn mwy o weithgareddau WICKED.	

<u>Adborth y Bobl Ifanc:</u>

Hoffi – *"Gwneud cyfeillion"*
"Gwneud dol a'r gwnio"
"Gwneud den"
"Y sied gwaith coed"

"Fe wnes i hoffi popeth"
"Popeth ond am fod yn oer"
"Y cawl x 6"

Ddim yn hoffi - *"Yr oerfel"*
"Gemau cylch"
"Bod tipyn o honno y tu allan!"

Adborth yr Hyfforddwr: *"Gweithdai gwych – wedi ei seilio o gwmpas plant yn gwneud pethau y mae nhw eisiau gwneud"* – Jamie Miller
"Teimlad diymhongar oedd gweithio efo plant mor anhygoel" – Mellissa Holloway

Adborth Gweithwyr Cynorthwyol: *"Mwynhaodd y bobl ifanc y sesiynau ac fe wnaethant yn bendant ddod yn fwyfwy hyderus wrth ddefnyddio'r offer dros y ddau ddiwrnod."* – Katie Gardner, Gofalwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin

"Nid oedd pawb yn y criw yn adnabod eu gilydd ar y cychwyn. Gwnaethant gyfeillion efo'u gilydd yn gyflym iawn ac efo gofalwyr ifanc o rannau eraill o Gymru. Roedd defnyddio'r offer gwaith coed i wneud pethau yn wych ar gyfer bechgyn a merched. Mae un bachgen wedi penderfynu bod yn "ddyn coed"! Dwi'n credu y byddai pob un ohonynt yn hoffi gwneud mwy." – Janet Bidgood, Gofalwyr Ifanc Powys

Criw Hŷn
Mynychodd 19 gofalwr ifanc y Dathliad hwn

NÔD	**CYRHAEDDWYD Y NÔD**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem â llaw.	Do, creodd pob un o'r cyfranogwyr o leiaf un peth	
70% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 70% o'r amser.	Yr oedd 100% yn bresennol am 100% o'r amser	
O leiaf 60% o bobol ifanc yn dangos gwelliant yn eu hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Na, 10 = yr un peth = 52% 9 = mwy = 48%	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Do, yr oedd pawb a wnaeth ymateb eisiau cymryd rhan mewn mwy o weithgareddau WICKED.	

Adborth Pobl Ifanc:

"Gwych" x 2*, "Awesome", "Brill!!", "Ymlaciol"* x 2

Adborth yr Hyfforddwr: *"Yr oedd hi'n hyfrydwch mynd â chriw bach i fforio yn y goedwig ."* – Maggie Fearn
"Llawer o adeiladu tîm a gweithio efo eraill" – Tony Eames

Adborth gweithiwr Cynorthwyol: *"Fe wnaeth y plant wir ymhél â'r tasgau yn enwedig y gwaith coed, ac fe wnaeth dau penodol yr ydw i'n gwybod eu bod yn cael trafferth canolbwyntio, daflu eu hunain mewn i'r gwaith a chael boddhad a bodlonder o'r darnau iddynt gynhyrchu. Llawer o bethau da ac atgofion i fynd adref"* – Celia Milne, Gofalwyr Ifanc Powys

"Gweithgaredd ardderchog a oedd yn amrywiol ac yn cynnwys staff/gweithwyr gwybodus. Da iawn i chi i gyd. Fe wnaeth y criw wir fwynhau eu hunain ac fe wnaethant ofyn pryd fydd yr un nesaf yn cael ei gynnal." – Denise John, Gofalwyr Ifanc Ceredigion

b) Cynllun GWEITHIO'R GOEDWIG

(Ar gyfer y rhai 16 – 19 mlwydd oed sydd ddim mewn addysg, yn gweithio nac yn cael hyfforddiant)

Powys

Mynychodd dau sydd dan hyfforddiant ym Mhowys gwrs hyfforddi wedi ei arwain gan Chris Hughes, o MWMAC. Roedd y cwrs yn hyfforddi ar winsio gyda llaw a winsio gyda tractor.
Mae'r Swyddog Prosiect wrthi ar hyn o bryd yn cynorthwyo un o'r prentisiaid i ymchwilio ffynonellau cyllid i'w gynorthwyo i brynu llif symudol. Dros y misoedd diwethaf, y mae wedi bod yn gwerthu coed Nadolig a mwsogl ac wedi llwyddo i gynilo £2,000, arian y bydd yn medru ei ddefnyddio i rannol ariannu unrhyw gymorthdaliadau sydd ar gael iddo.

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru yn datblygu Cynllun Prentisiaeth Fodern mewn Coedwigaeth ar hyn o bryd; pan ddaw'r cynllun i fodolaeth, fe all greu mecanwaith i alluogi hyfforddiant pellach a lleoliad gwaith i'r rhai sydd o dan hyfforddiant Gweithio'r Goedwig.

Cyrhaeddiad:	**NÔD:**	**Sylwadau:**
Twf mewn sgiliau sy'n arwain at gyfleoedd gwell i bobl ifanc gael gwaith	O leiaf 60% o'r cyfranogwyr yn derbyn achrediad	66% wedi derbyn achrediad
	O leiaf 60% o'r cyfranogwyr yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at ddatblygiad gyrfa	94% oedd canran mynychu yr holl gyfranogwyr
	O leiaf 25% o'r cyfranogwyr yn symud ymlaen i gael hyfforddiant pellach neu i weithio	75% wedi symud ymlaen i gael hyfforddiant pellach

Ceredigion:

Y mae'r ddau brentis a oedd yn dilyn Diploma 6 mis yng Ngholeg Coppicewood wedi cwblhau eu cwrs yn llwyddiannus. Mae un ohonynt wedi canfod lleoliad gwaith efo cwmni peirianneg a leolir yn Llanbedr Pont Steffan. Ar hyn o bryd, mae'r Swyddog Prosiect Tir Coed wrthi'n edrych am leoliad gwaith Saer/Saernïaeth i'r ail brentis. Yn ychwanegol, gwobrwywyd y ddau â thystysgrif Gwirfoddolwr y Mileniwm i gydnabod dros 100 awr o waith gwirfoddol iddynt gwblhau. Cyflwynodd Simon Hewitt (Cadeirydd Tir Coed) y tystysgrifau, ac achubwyd ar y cyfle i hysbysebu prosiect WICKED mewn papurau lleol.

Mae adroddiad chwarter blwyddyn Hydref - Rhagfyr yn parhau yn gymwys ar gyfer disgrifiad datblygiad y rhai eraill sydd dan hyfforddiant Gweithio'r Goedwig.

Cyrhaeddiad:	NÔD:	Sylwadau:
Twf mewn sgiliau sy'n arwain at gyfleoedd gwell i bobl ifanc gael gwaith	O leiaf 60% o'r cyfranogwyr yn derbyn achrediad	Y mae 62% wedi, neu ar fin derbyn achrediad
	O leiaf 60% o'r cyfranogwyr yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at ddatblygiad gyrfa	86% oedd canran mynychu yr holl gyfranogwyr
	O leiaf 25% o'r cyfranogwyr yn symud ymlaen i gael hyfforddiant pellach neu i weithio	Y mae 62% wedi symud ymlaen i gael hyfforddiant pellach neu i weithio

Sir Benfro:

Ers i'r sesiynau cyflwynedig ddirwyn i ben, mae rhai o'r cyfranogwyr wedi symud ymlaen i rhan 1 a 2 o'r rhaglen. Disgrifiad byr o bob un o'r cyfranogwyr â ddilynir:

Prentis 1 – Dechreuodd y gwr ifanc hwn leoliad gwaith yn Storfa Goed Sir Benfro. Ond profodd y teithio hirfaith a oedd ynghlwm â hyn yn ormod o rwystr, ac yn anffodus, rhoddodd y gorau iddi ar ôl ychydig wythnosau.

Prentis 2 – Derbyniodd ei Wobr Gwirfoddolwr Mileniwm 150 awr (prosiect wedi ei ariannu gan CGGC) ym mis Ionawr. Y mae nawr wedi cwblhau cwrs achrediad 6 mis RhCA efo'r coleg Coppicewood. Mae Becky yn edrych am leoliad gwaith addas ar gyfer y gwr ifanc hwn, ac hefyd yn ymchwilio ynglŷn â hyfforddiant llif drydan.

Cyrhaeddiad:	NÔD:	Sylwadau:
Twf mewn sgiliau sy'n arwain at gyfleoedd gwell i bobl ifanc gael gwaith	O leiaf 60% o'r cyfranogwyr yn derbyn achrediad	Y mae 43% (3 allan o 7) wedi, neu ar fin derbyn achrediad
	O leiaf 60% o'r cyfranogwyr yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at ddatblygiad gyrfa	Do, 75.7% oedd canran mynychu yr **holl** gyfranogwyr
	O leiaf 25% o'r cyfranogwyr yn symud ymlaen i gael hyfforddiant pellach neu i weithio	Y mae 43% wedi symud ymlaen i gael hyfforddiant pellach neu i weithio

Mae sesiynau blasu Gweithio'r Goedwig ar gyfer 2008 yn cael eu cynllunio ar gyfer Mehefin a Gorffennaf yn Sir Benfro.

Sir Gâr:

Gan i sesiwn blasu Gweithio'r Goedwig ei ohirio yn Sir Gâr yn 2007 oherwydd diffyg cyfranogwyr, nid ydi Becky wedi dilyn datblygiad gyrfa yr unigolion â wnaeth fynychu rhannau o'r cynllun.
Mae sesiynau blasu Gweithio'r Goedwig 2008 yn cael eu cynllunio ar gyfer mis Mehefin yn Sir Gâr.

c) Rhaglen Coed Call

(Ar gyfer pobl ifanc, 14 – 16 mlwydd oed sydd wedi cael, neu mewn perygl o gael eu diarddel o'r ysgol)

Powys

Y mae datblygiadau tuag at ddechrau prosiect Coed Call ym Mhowys ar gyfer y flwyddyn ysgol nesaf.

1. Mae dau Weithiwr Ieuenctid sy'n gweithio efo ysgolion uwchradd, un yn Llanfair Caereinion a'r llall yn Llanidloes, wedi lleisio eu diddordeb ar gael eu hyfforddi i arwain prosiect Coed Call. Maent yn gweithio gyda disgyblion blwyddyn 10 ac 11, gan gynnig ehangder gwahanol o weithgareddau cylch, ac mae diddordeb ganddynt i gynnwys gweithgareddau wedi eu lleoli mewn coedlannau am ddiwrnod yr wythnos.
Maent yn aros am gymeradwyaeth oddi wrth eu Rheolwyr Llinell i gael eu hyfforddi mewn gwaith coed irlas, ayyb.
2. Mae athro technoleg coed o Ysgol Uwchradd Aberhonddu (sy'n ymddeol o ddysgu amser llawn ym mis Mehefin) â diddordeb mewn dychwelyd am 1 diwrnod pob wythnos, o fis Medi nesaf, i arwain prosiect Coed Call. Mi fydd yn gallu arwain prosiect wedi ei leoli mewn coedlan gan ei fod yn meddu ar y gallu i weithio coed irlas yn barod. Y mae'n trafod gydag Ysgol Uwchradd Aberhonddu ynglŷn â chael ei gyflogi gan yr ysgol i arwain Coed Call yn Aberhonddu.

Ceredigion:

Er mae dim ond 3 person ifanc sydd yn ran o'r prosiect hwn ar hyn o bryd, maent i gyd ar eu hennill o gymeryd rhan. Mae'r criw wedi gorffen adfer ac ymestyn theatr y goedlan sydd wedi ei leoli yn y coed. Daeth Hyfforddwr arbenigol i gynorthwyo efo'r gwaith adeiladu yma. Cafodd y prosiect adeiladu yma, ynghyd ag adnabod offer, ei achredu drwy'r Rhwydwaith Coleg Agored (RhCA). Y 2 uned a gyrhaeddwyd oedd:

- Adeiladu Lloches Coed Sylfaenol;
- Adnabod Teclynnau ac Offer Gwaith Coed.

Mae'r bobl ifanc wrthi ar hyn o bryd yn ymhél â gwaith celf er mwyn addurno'r theatr, ac hefyd yn creu cerddoriaeth ag offerynnau taro wedi eu gwneud o goed.

NÔD	**CYRHAEDDWYD Y NÔD**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem â llaw.	Do, mae pob cyfranogwr wedi cymeryd rhan mewn gwneud bocs adar a'r prosiect adeiladu.	
Mae'r cyfranogwyr yn medru mynegi eu barn am y goedwig, y gweithgaredd ac am eu hunain ar recordiad fideo	Prawf ffotograffig yn unig – cyfranogwyr ddim yn gyfforddus o flaen y camera fideo.	

70% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 70% o'r amser.	Mae'r 3 cyfranogwr wedi bod yn bresennol 100% o'r amser.	
O leiaf 60% o bobol ifanc yn dangos mwy o ymwybyddiaeth amgylcheddol:	Do, enwodd pob un o'r cyfranogwyr a wnaeth gwblhau taflen hunan werthusiad un math o goeden ac un math o fywyd gwyllt y goedwig.	
O leiaf 60% o bobol ifanc yn dangos gwelliant yn eu hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Yr un peth – rhoddodd pob un o'r cyfranogwyr y sgôr uchaf i'w hunain yn eu hunan werthusiad.	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Ydyn, mi fyddai'r holl gyfranogwyr yn hoffi parhau eu cysylltiad â'r prosiect.	
NÔD:	**CYRHAEDDIAD:**	**SYLWADAU:**
Twf mewn sgiliau sy'n arwain at gyfleoedd gwell i bobl ifanc gael gwaith		
O leiaf 60% o'r cyfranogwyr yn derbyn achrediad	Mae 2 o'r 3 cyfranogwyr wedi cwblhau dwy uned o'r achrediad RhCA	Ymunodd y 3ydd cyfranogwr hanner ffordd trwy gyfnod RhCA ac felly nid oedd modd ei gofrestru.
O leiaf 60% o'r cyfranogwyr yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at ddatblygiad gyrfa	Mae'r 3 cyfranogwr wedi bod yn bresennol 100% o'r amser.	

Adborth tymor 2:

Be wnaethoch chi ? – *"Fe wnes i focs aderyn a rhan o fy ffon gerdded"*
"gwneud cefn llwyfan theatr"
"Mynd am dro i'r traeth"

Fe fydd ail brosiect Coed Call Ceredigion yn dechrau yn ystod mis Ebrill mewn coedlan a'r y ffin rhwng Ceredigion a Sir Gâr.
Bydd adroddiad llawn o'r prosiect yma yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Chwarterol nesaf.

Sir Gâr:

Oherwydd newidiadau staff yng Ngwasanaeth Ieuenctid Sir Gâr, dim ond 2 sesiwn Coed Call a gynhaliwyd yn Nhŷ Gwaith Coed yn ystod y chwarter yma. Mynychodd 2 fyfyriwr y ddwy sesiwn gan gymeryd rhan yn gwneud Daliwr Breuddwydion allan o goed Helyg, fforio'r safle, cynnau tân a choginio. Mae Anwen Davies, a oedd yn arwain y prosiect yn wreiddiol, wedi cael ei symud i swydd newydd mewn ardal arall. Diolch i Anwen am ei chymorth a'i holl waith caled yn sefydlu'r prosiect. Yn ffodus, mae Gweithiwr Ieuenctid arall a wnaeth fynychu hyfforddiant Coed Call yn ystod Haf 2007 yn awr mewn safle i arwain y prosiect hwn. Bydd Rachel Cray, ynghyd â 2 Weithiwr Ieuenctid Coed Call newydd, Simone Pearce a Tim Evans, yn arwain 9 myfyriwr ar y prosiect hwn, ar ddyddiau Mercher o gyfnod y Pasg ymlaen. Mynychodd y 3 Gweithiwr Ieuenctid gwrs 4-diwrnod gwaith coed irlas yng Ngholeg Coppicewood yn ystod mis Mawrth (gweler Hyfforddiant Gweithiwr Cynorthwyol, isod) ac yn nawr maent yn ysu i gael cychwyn ar y gwaith.

Oherwydd niferoedd isel a sesiynau anfynych, nid yw'r targedau wedi cael eu hasesu, a does dim adborth wedi cael ei gofnodi am y prosiect yma yn ystod y chwarter hwn.

Sir Benfro:

Yn ystod y chwarter yma, mae 11 sesiwn Coed Call wedi digwydd yn Sir Benfro, gan gynnwys un sesiwn ychwanegol dros nos. Mae'r saith cyfranogwr wedi bod yn brysur yn dysgu dulliau goroesi yn y gwyllt, megis cynnau tân. Maent wedi bod yn gwneud palisau coed helyg i weddu'r ardal teras carreg iddynt ei adeiladu yn y coed tymor diwethaf, ac hefyd, efo arweiniad un o'r cyfranogwyr sydd a thad sy'n blygwr cloddiau, maent hyd yn oed wedi troi ei llaw at blygu cloddiau. Mae'r criw hefyd wedi dechrau ar brosiect mawr, sef adeiladu lloches goed symudol. Mae'r bechgyn, o dan oruchwyliaeth yr Arweinwyr Anthony Harris a Matt Done, wedi cymryd rhan ym mhob agwedd o adeiladu'r lloches, gan gynnwys canfod a disgyn y coed ar gyfer polion y ffrâm. Fe wneith y lloches symudol gynnig lloches hyblyg oddi wrth y glaw sy'n golygu y gall y criw yma weithio yn amlach yn y coed drws nesaf i Ysgol Penfro, - ar hyn o bryd maent wedi cael eu cyfyngu i Ganolfan Ieuenctid Dinbych yn ystod tywydd gwael.

Mae'r 6 yn awr wedi enyn eu Gwobr Cyrhaeddiad Ieuenctid ac wedi dechrau gwaith ar gymhwyster Lefel Mynediad Rhwydwaith Coleg Agored (RhCA) mewn Adnabod Offer, sydd yn mynd i gael ei gadarnhau gan Swyddog Achrediad y Wasanaeth Ieuenctid.

NÔD	CYRHAEDDWYD Y NÔD	SYLWADAU
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem â llaw.	Do, mae'r holl gyfranogwyr wedi cymryd rhan yn gwneud ffensiau ac adeiladu lloches.	
Mae'r cyfranogwyr yn medru mynegi eu barn am y goedwig, y gweithgaredd ac am eu hunain ar recordiad fideo	Prawf ffotograffig yn unig – cyfranogwyr ddim yn gyfforddus o flaen y camera fideo.	
70% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 70% o'r amser.	Cyfradd mynychu o 72.6%. Fe wnaeth 4 allan o 7 (57%) fynychu 100% o'r amser	Mae un o'r cyfranogwyr o Ysgol Penfro wedi rhoi'r gorau i'r prosiect oherwydd newidiadau yn ei amserlen ysgol. Dydy'r 2 gyfranogwr o Ysgol Greenhill ddim bob amser yn medru mynychu sesiynau, felly mae ganddynt gyfartaledd mynychu o 27% a 36%
O leiaf 60% o bobol ifanc yn dangos mwy o ymwybyddiaeth amgylcheddol:	Enwodd pob un o'r cyfranogwyr a wnaeth gwblhau taflen hunan werthusiad un math o goeden ac un math o fywyd gwyllt y goedwig.	
O leiaf 60% o bobol ifanc yn dangos gwelliant yn eu hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Yr un peth – rhoddodd pob un o'r cyfranogwyr y sgôr uchaf i'w hunain yn eu hunan werthusiad.	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Ydyn, mi fyddai'r holl gyfranogwyr yn hoffi parhau eu cysylltiad â'r prosiect.	

Nod:	Cyrhaeddiad:	Sylwadau:
Twf mewn sgiliau sy'n arwain at gyfleoedd gwell i bobl ifanc gael gwaith		
O leiaf 60% o'r cyfranogwyr yn derbyn achrediad	Mae pob un o'r cyfranogwyr presennol wedi ennill eu Gwobr Cyrhaeddiad ieuenctid Efydd, ac wedi eu cofrestru ar gyfer achrediad RhCA	6 cyfranogwr
O leiaf 60% o'r cyfranogwyr yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at ddatblygiad gyrfa	Fe wnaeth 72.6% fynychu 100% o'r amser. Yn ei grynswth, 72.6% oedd y cyfartaledd mynychu.	Gwelir uchod

Adborth tymor 2:

Hoffi – *"Adeiladu'r lloches – torri coed i lawr."*
"Aros allan yn y coed."

Ddim yn hoffi - *"Dim" x 3*

Be' wnaethoch chi greu? – *"Fe wnaethom ni loches symudol sy'n 16 troedfedd o led a 14 troedfedd o uchder. Fe wnaethom ganfod a disgyn coed, a tynnu'r rhisgl oddi arnynt. Fe wnaethom eu cario, adeiladu tyllau i'w gosod ynddynt a creu'r lloches. Fe wnaethom godi ffensiau hefyd i amddiffyn y lloches ac er mwyn ei wneud i edrych fel rhan o'r goedwig."*

Adborth Arweinydd Tymor Dau:

"Mae'r prosiect lloches symudol wedi magu hyder a rhoi gwybodaeth ddyfnach i'r bechgyn, a heb yn wybod iddynt, maent wedi bod yn gweithio efo'u gilydd yn datrys trafferthion gan ddefnyddio'u galluoedd gwaith coed newydd. Mae'r criw wedi bod yn adeiladu palisau coed Helyg i ychwanegu at y lloches. Galluogodd hyn iddynt ganfod y coed, eu torri a'u casglu i'r meintiau angenrheidiol ar gyfer y lloches. Roedd hwn yn brosiect gwych, a buaswn yn ei wneud eto efo criwiau eraill."

Hyfforddiant Gweithwyr Cynorthwyol:

1. Bu 3 Gweithiwr Ieuenctid sydd wedi cymryd awenau prosiect Coed Call yn sir Gâr yn mynychu 4 diwrnod hyfforddiant ar waith coed irlas, wedi ei lywyddu gan Goleg Coppicewood, Cilgerran.

Adborth
Mae'r tabl isod yn dangos ymateb 2 o'r hyfforddedig â wnaeth gwblhau ffurflenni adborth, gan fod 1 wedi methu'r sesiwn olaf oherwydd salwch:

	Gwael 1 Isel	**2**	**3**	**4**	**Ardderchog 5 Uchel**
Â gyrhaeddodd yr hyfforddiant y nod penodedig?					2
A oeddech yn hapus efo'r raddfa rhwng y theori a'r ymarferol?					2
Gwerthuswch safon yr hyfforddi os gwelwch yn dda					2
Mynegwch eich barn ar safon y deunyddiau a ddarparwyd os gwelwch yn dda					2
Pa mor addas oedd safle'r goedlan?					2
Pa mor berthnasol oedd eich hyfforddiant i'ch gwaith cynorthwyol?					2
Mynegwch eich barn ar safon y gweinyddu / trefniant					2
A wnewch chi os gwelwch yn dda asesu safon eich cwrs yn ei grynswth					2

Sylwadau - *"Mi fase ni wedi dwli 'tase'r cwrs wedi bod yn hirach – llawer i ddysgu*

Awgrymiadau - *"Cwrs tyrn-polyn"*

2. Cynhaliwyd gweithdy un diwrnod, wedi ei arwain gan Bob Shaw a Tony Eames, mewn coedlan yng ngogledd Ceredigion yn ystod mis Mawrth, ar gyfer Staff a Gweithwyr Cynorthwyol sy'n gweithio efo pobl ifanc mewn ffordd ymarferol. Amcan y diwrnod oedd codi ymwybyddiaeth Staff a Gweithwyr Cynorthwyol o elfennau ymarferol a diogelwch sydd yn ymwneud ag arwain gweithgaredd mewn coedlan, fel eu bod wedi eu paratoi'n well ar gyfer cefnogi'r bobl ifanc sy'n cymeryd rhan.
Roedd y gweithdy yn cynnwys:

- Defnydd diogel o offer llaw;
- Cefnogi gweithgareddau rheoli coedlannau;
- Cefnogi gweithgareddau crefft mewn coedlan.

Roedd y cwrs yn llawn, â 12 o Weithwyr Cynorthwyol yn mynychu.
Casglwyd gwerthusiad y cwrs hyfforddi drwy ffurflenni adborth.
Adborth llawn ar gyfer pob un o'r cwestiynau:

	1	2	3	4	Ardderchog 5 Uchel
Â gyrhaeddodd yr hyfforddiant y nod penodedig? (i godi ymwybyddiaeth ynglŷn ag elfennau diogelwch ac ymarferol sydd yn ymwneud ag arwain gweithgaredd mewn coedlan efo pobl ifanc)					12
A oeddech yn hapus efo'r raddfa rhwng y theori a'r ymarferol?					12
Gwerthuswch safon yr hyfforddi os gwelwch yn dda					12
Mynegwch eich barn ar safon y deunyddiau a ddarparwyd os gwelwch yn dda					12
Pa mor addas oedd safle'r goedlan?					12
Pa mor berthnasol oedd eich hyfforddiant i'ch gwaith cynorthwyol?				2	10
Mynegwch eich barn ar safon y gweinyddu / trefniant				1	11
A wnewch chi os gwelwch yn dda asesu safon eich cwrs yn ei grynswth					12

Crynodeb o'r sylwadau ynglŷn â gwelliannau:
Mwy o amser i ddefnyddio offer a thechnegau, cwrs dau ddiwrnod efallai.
Cwrs dilynol efallai.
Doedd jest dim digon o amser.
Gwybodaeth am gyfranogwyr eraill ar gyfer trefnu lifft.
Adnoddau golchi dwylo?
Bisgedi!

Mwy o hyfforddiant coedlan â fyddai o ddefnydd:
Gemau/ addysg coedlan amgylcheddol.
Gwneud offerynnau cerddoriaeth.
Creu offer syml iawn.
Rheolaeth coedlannau.
Adnabod ac ymwybyddiaeth am rywogaethau.
Gofalu am offer.
Gwneud dodrefn.
Adeiladu lloches allan o goed o'r cychwyn i'r diwedd.
Miniogi offer.
Sesiynau blasu er mwyn denu pobl ifanc i gymeryd rhan.

3. Mae llythyr wedi ei baratoi er mwyn canfod beth yw anghenion hyfforddi Gweithwyr Ieuenctid a Chynorthwyol sydd wedi cymryd rhan ym mhrosiect WICKED. Bydd yr ymateb i'r llythyr hwn yn penderfynu natur yr hyfforddiant a fydd ar gynnig yn ystod ail flwyddyn WICKED.

Diwedd yr adroddiad.